COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD LLUN, 28 MEHEFIN 2021, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd JPD Blundell – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Clarke | P Davies | DK Edwards | DG Howells |
| JR McCarthy | RMI Shaw | JC Spanswick | RME Stirman |
| LM Walters | JE Williams | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

DRW Lewis, JC Radcliffe, G Thomas a/ac MC Voisey

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Nicola Bunston | Rheolwr Ymgynghori, Ymgysylltu a Chydraddoldeb |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Tracy Watson | Swyddog Cymorth Craffu |
| Delyth Webb | Rheolwr Grwp Adfywio Strategol |

1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

2. ADRODDIAD AR ENWEBU HYRWYDDWR RHIANTA CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y  Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio adroddiad, a'i ddiben oedd gofyn i'r Pwyllgor enwebu un Aelod i fod yn Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol a wahoddir i gynrychioli'r Pwyllgor yng nghyfarfodydd Rhianta Corfforaethol Pwyllgor y Cabinet.

Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau, ac ar ôl hynny cafwyd

PENDERFYNIAD: Y byddai’r Cynghorydd J C Radcliffe yn cael ei enwebu i gynrychioli Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 ac i’w wahodd i gyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet Rhianta Corfforaethol.

3. ENWEBIAD I BANEL CRAFFU'R BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cyflwynodd y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol, a Rheoleiddio adroddiad, a'i ddiben oedd gofyn i'r Pwyllgor enwebu un Aelod i eistedd ar Banel Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau, ac ar ôl hynny cafwyd

PENDERFYNIAD: Y byddai’r Cynghorydd Paul Davies yn cael ei enwebu i gynrychioli Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 a’i wahodd i gyfarfodydd Panel Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

4. Y DIWEDDARAF AM Y FLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu amlinelliad o’r Flaenraglen Waith ddrafft arfaethedig (Atodiad A) i'r Pwyllgor gael ei thrafod a'i hystyried; gofynnodd am unrhyw wybodaeth benodol y mae’r Pwyllgor wedi’i nodi y dylid ei gynnwys yn yr eitemau ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf, gan gynnwys gwahoddedigion y maent yn awyddus i’w cael; gofynnodd i'r Pwyllgor nodi unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith, gan roi sylw i'r meini prawf dethol ym mharagraff 4.6; a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi y byddai'r Blaenraglenni Gwaith drafft arfaethedig ar gyfer y Pwyllgor yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf COSC, ynghyd â sylwadau pob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc perthnasol, yn dilyn ystyriaeth yn eu cyfarfodydd Pwyllgor ym mis Mehefin.

Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor am wybodaeth i'w chynnwys mewn adroddiadau FWP sydd ar y gweill:

1. **Cynnydd Strategaeth Datgarboneiddio Pen-y-bont ar Ogwr 2030 (Cerbydau Allyriadau Isel Iawn) – 19 Gorffennaf 2021**

- Manylion am ble yn y fwrdeistref sirol y mae pwyntiau gwefru i’w cael, ynghyd â pha fath o bwyntiau gwefru ydynt, a faint ohonynt sydd yno. Hefyd pryd/ble/ faint fydd yn cael eu darparu yn y dyfodol.

- Rhagor o wybodaeth am bwyntiau gwefru o ran y rhan sy’n cysylltu â’r ceir, a fydd cysylltydd safonol? E.e. mae gan Tesla ei hun ar hyn o bryd, ond ni all ceir eraill ei ddefnyddio.

- Osgoi dyblygu pwyntiau gwefru os nad ydynt yn rhai safonol.

- I’r adroddiad gynnwys manylion am berfformiad y 6 cerbyd trydan a gafaelwyd gan y Gyfarwyddiaeth Gymunedau ar ddechrau'r pandemig.

2. **Y wybodaeth ddiweddaraf am Gontract y Gwasanaeth Gwastraff 2024 – 19 Gorffennaf 2021**

- Llinell amser.

- Sicrhau bod y swyddogion cywir yn cael eu gwahodd i ateb cwestiynau.

- Manylion am yr opsiwn mewnol hefyd, manylion am gostau ailgylchu ac incwm, a safleoedd ailgylchu.

- Cyflwyno'r contract i osgoi materion a welwyd yn y gorffennol rhwng diwedd un contract a dechrau nesaf e.e. dim bagiau ailgylchu ar gael, trosglwyddo, ac ati.

- Anawsterau casglu sbwriel oherwydd ardaloedd a reolir gan y Cyngor e.e. priffyrdd, llinellau melyn dwbl, ceir wedi'u parcio, ac ati.

- Dadansoddiad o atgyfeiriadau Aelodau cysylltiedig dros y 12/18 mis diwethaf er mwyn deall problemau ac effaith y contract presennol, a'r gwersi a ddysgwyd ohono, a hynny er mwyn bwydo i mewn i ddyluniad contract newydd.

- Rhoi adborth a diweddariadau rheolaidd i SOSC3 wrth i'r llinell amser fynd yn ei blaen fel bo modd parhau i ofyn cwestiynau.

- Cynnwys gwybodaeth am gaffael cerbydau

**3. Newidiadau mewn Cyllid Economaidd Allanol - Datblygu Economaidd – 29 Medi 2021**

- Darparu gwybodaeth mewn perthynas â goblygiadau posibl gadael yr UE (e.e. CBSP/Caerffili wedi'u heithrio rhag derbyn rhywfaint o'r cyllid).

**4. Prosiectau Trafnidiaeth yn y Fwrdeistref Sirol - 16 Chwefror 2022**

- Mae angen gwahodd cynrychiolwyr Network Rail a Thrafnidiaeth Cymru i'r cyfarfod.

- Cynnig i osod dolen ar y rheilffordd – pam fod hyn wedi'i ohirio.

- Manylion am yr adolygiad o wasanaethau bysiau

5. Gofynnwyd am gadarnhad y bydd y Sesiwn Datblygu Aelodau sy'n ymwneud â'r broses ar gyfer blaenoriaethu cynnal a chadw priffyrdd, llwybrau troed, goleuadau stryd, adeiladau, technoleg, ynghyd â Theithio Llesol, yn cael ei threfnu ym mis Hydref 2021 cyn yr adroddiad i'r Pwyllgor ar 24 Tachwedd 2021 ynghylch: Darparu Seilwaith (gan gynnwys ffyrdd, goleuadau stryd, adeiladu a thechnoleg).

Ni nodwyd unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith, gan roi sylw i'r meini prawf dethol ym mharagraff 4.6, a gellid ailedrych ar hyn yn y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNIAD: Bod y Pwyllgor wedi ystyried a chytuno ar y Flaenraglen Waith amlinellol ddrafft arfaethedig yn Atodiad A, wedi nodi gwybodaeth / gwahoddedigion penodol yr oedd y Pwyllgor am eu cynnwys yn yr adroddiadau a restrir uchod, ac wedi nodi y byddai'r Blaenraglenni Gwaith drafft arfaethedig ac unrhyw ddiweddariad gan y Pwyllgor yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf COSC.

5. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:55